

Arolygiad Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (Dirybudd)

**Ysbyty Cefn Coed: Bwrdd
Iechyd Prifysgol Abertawe Bro
Morgannwg**

Dyddiad arolygiad: 10 ac 11 Mai 2016

Dyddiad cyhoeddi: 12 Awst 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Methodoleg	5
3.	Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4.	Crynodeb	7
5.	Canfyddiadau.....	10
	Safonau Craidd.....	10
	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	22
	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	23
6.	Y Camau Nesaf.....	25
	Atodiad A.....	26

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- yn ddiogel
- yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- yn cael gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i wneud hynny
- yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Y dull o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur. Ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgysylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Ysbyty Cefn Coed ar 10 ac 11 Mai 2016. Gwnaethom archwilio pedair ward, sef Ward Clun, sy'n derbyn cleifion benywaidd ar gyfer gwasanaethau aciwt, Ward y Fendrod, sy'n derbyn cleifion gwrywaidd ar gyfer gwasanaethau aciwt, Ward Gwelfor, sy'n ward adsefydlu agored ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd, a Ward Celyn, sy'n rhoi asesiad estynedig ar gyfer cleifion benywaidd hŷn.

Mae Cefn Coed yn ysbyty seiciatrig sy'n cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM), ac mae'n darparu gofal seiciatrig cyffredinol i oedolion a'r henoed.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom gynnal adolygiad o gofnodion y cleifion, cynnal cyfweiliadau â chleifion a staff, archwilio amgylchedd y gofal, ac arsylwi ar yr ymadweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd tîm adolygu AGIC yn cynnwys un adolygwr cymheiriaid, un adolygwr lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Roedd ein hymweliad ym mis Mai 2016 ag Ysbyty Cefn Coed yn ymweliad dilynol, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion a nodwyd ym mis Tachwedd 2014. Roedd yn bleser gennym nodi bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd gennym yn ein hadroddiad blaenorol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Y cynnydd a wnaed o ran datgomisiynu nifer o wardiau o'r prif Ysbyty Cefn Coed ers ein hymweliad diwethaf
- Y gwelliant a nodwyd ynglŷn â hyfforddiant gorfodol y staff, yn benodol bod yr hyfforddiant codi a chario bellach yn orfodol, a'r sylw a roddwyd i'r anawsterau yr oedd staff yn ei gael o ran mynychu hyfforddiant cynnal bywyd.

Yn ogystal â'r gwelliannau a nodwyd, gwnaethom hefyd nodi arferion da y gwnaethom barhau i'w gweld yn ystod pob ymweliad dilynol â'r ysbyty, yn benodol y modd parhaus yr oedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymgysylltu â'r rhaglen arolygu, a'r nifer o weithiau y gwelsom ymadweithio cadarnhaol rhwng y staff a'r cleifion yn ystod ein hymweliad.

Er gwaethaf yr arfer da a nodwyd gennym, gwelsom hefyd fod lle sylweddol i wella mewn nifer o feysydd. Yn dilyn ein hymweliad, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd ynglŷn â gweithdrefnau diogelwch rhag tân a chwblhau dogfennau gofal. Pwrpas y llythyr oedd ceisio sicrwydd gan y bwrdd iechyd am y camau gweithredu yr oeddent wedi'u cymryd i leihau'r peryglon.

Nodir y meysydd eraill yr ydym wedi nodi y mae angen eu gwella yn Atodiad A, ond mae crynodeb o'r prif broblemau'n cynnwys:

- Nodwyd materion amgylcheddol y mae angen rhoi sylw iddynt, ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
 - Roedd drysau tân yn cael eu dal ar agor
 - Nodwyd nifer o risgiau clymiadau, yn arbennig ceblau teledu
 - Roedd angen glanhau rhai lleoliadau yn yr amgylchedd allanol yn drylwyr oherwydd bod bonion sigarêts yn gwneud y lle'n flêr
 - Diffyg ystafelloedd i ymwelwyr ar Ward Clun i roi preifatrwydd

- Dim hylif golchi dwylo wrth fynedfa Ward y Fendrod
- Paneli gweld oedd ar agor, ac nad oedd modd eu rheoli y tu mewn i'r ystafell wely
- Roedd diffyg poster/gwybodaeth i gleifion gweladwy ynghylch gwasanaethau eirioli yn Ward Clun a Ward y Fendrod
- Nodwyd gofynion sylweddol yn Ward Celyn yn ymwneud â'r dogfennau gofal, gan gynnwys diffyg nodiadau archwilio a chymeradwyo gan nyrsys cofrestredig, a bylchau sylweddol lle mae gwybodaeth ar goll/anghyflawn ar siartiau
- Nodwyd problemau yn ymwneud â chydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys bod dim copïau o'r papurau anfon cleifion i ysbyty meddwl yn y nodiadau achos, ysgrifennu annarllenedwy i nodi barn feddygol, a diffyg cynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed yn 2014.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Yn dilyn ein hymweliad blaenorol ym mis Tachwedd 2014, gwnaed gwaith sylweddol i ddatgomisiynu nifer o wardiau. Allan o'r chwe ward y gwnaethom ymweld â nhw yn 2014, dim ond dwy ward oedd yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion ym mhrif adeilad yr ysbyty. Roedd Heddfan, ISIS, Tegfan, Ward 2 a Ward F wedi cau. Roedd Ward 4 wedi'i hailenwi'n Ward Clun ac roedd yn darparu asesiadau i gleifion benywaidd aciwt. Roedd Ward y Fendrod wedi'i lleoli i fyny'r grisiau yn y prif ysbyty ac roedd yn darparu asesiadau i gleifion gwrywaidd aciwt.

Ward Clun

Mae Ward Clun yn ward derbyniadau gydag 14 gwely ar gyfer cleifion benywaidd, a cheir mynediad i'r ward trwy system intercom. Wrth fynd i mewn i'r ward, roedd nifer o swyddfeydd ar gyfer aelodau'r staff ac roedd nifer o gadeiriau gyferbyn â'r swyddfeydd i ymwelwyr. Roedd yr hysbysfyrddau yn y man hwn yn arddangos gwybodaeth a oedd yn cynnwys 'Sut Rydym Ni'n Perfformio', a oedd yn cyflwyno ystadegau ar gyfer hyfforddiant staff, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), cwynion, a rheoli heintiau. Nid oedd hysbysfwrdd y staff yn gyflawn eto o ran dangos eu lluniau a'u proffiliau, ond roedd yn ddymunol gweld cardiau a llythyrau diolch wedi'u harddangos.

Roedd drws arall yn arwain at fannau'r cleifion. Roedd ystafell fwyta a lolfa cynllun agored yn rhoi digon o le i'r grŵp cleifion allu eistedd, bwyta a gwyllo'r teledu. Roedd digon o seddi a byrddau yn yr ystafell fwyta i'r cleifion allu bwyta gyda'i gilydd, ac roedd y ffenestri mawr yn y man hwn yn taflu golau i'r ystafell. Ar adeg ein hymweliad, roedd y drws tân yn cael ei ddal ar agor. Fe wnaeth yr aelod o staff symud y lletem oddi yno pan dynnwyd sylw at y mater, ond y diwrnod canlynol nodwyd bod y lletem yn dal y drws ar agor eto.

Roedd ystafell dawel ar gael rhwng yr ystafell fwyta a'r lolfa a oedd yn darparu lle preifat i gleifion a staff. Roedd y lolfa'n un fawr gyda digon o le i eistedd ac roedd teledu ar gael ar gyfer y grŵp cleifion. Ym mhen y lolfa, roedd cegin a oedd yn galluogi cleifion i wneud eu diodydd poeth ac oer eu hunain yn ogystal â chael byrbrydau. Yn y gegin hon, roedd bwrdd a chadeiriau, ac wrth y fynedfa i'r gegin roedd deunyddiau celf a chreffft wedi'u storio mewn bocsys.

Ym mhen pellaf y lolfa, roedd teledu arall wedi'i osod ar wal gyda chonsol gemau wedi'i gysylltu. Roedd toiled i gleifion gerllaw, ond nid oedd yn breifat iawn oherwydd roedd y drws yn agor yn uniongyrchol i'r lolfa. Roedd allanfa dân gyfagos wedi'i chloi a dywedodd y staff wrthym y byddent yn agor y drws

tân pe byddai argyfwng (roedd yr allwedd yn cael ei chadw yn swyddfa'r nyrsys). Dywedwyd wrthym yn ddiweddarach bod pob aelod o'r staff yn cario prif allwedd i agor yr allanfa dân.

Roedd pob ystafell wely yn y ward yn rhai sengl, ac roedd y cleifion yn rhannu cyfleusterau cawod a thoiled. Roedd gris i gyrraedd y cawod yn yr ystafelloedd cawod ac nid oedd hyn yn addas i unrhyw un ag anabledd.

Gwelsom ystafell wely nad oedd yn cael ei defnyddio a nodwyd pa mor wag oedd yr ystafell a bod ganddi ymdeimlad o uned diogelwch isel. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y dodrefn oedd ar gael yn yr ystafell, a oedd yn cynnwys gwely sengl, cist ddillad, cabinet ochr gwely, a chwprdd dillad.

Roedd yr ystafell glinig mewn coridor ar yr ochr ac roedd yn ymddangos ar wahân. Byddai'r clinig yn elwa ar gael drws 'stabl' er mwyn caniatáu i staff roi meddyginiaeth heb orfod agor y drws cyfan, a oedd yn digwydd ar adeg ein hymweliad. Roedd yr ystafell archwilio'r drws nesaf i'r clinig yn ystafell fawr gyda chyfleusterau i'r staff allu cynnal profion ac asesiadau cleifion. Nid oedd y mwgwd ocsigen ar adeg ein hymweliad wedi'i orchuddio ac roedd yn casglu llwch. Mae angen cynnal adolygiad o hyn a'i orchuddio'n unol â hynny.

Roedd yr hysbysfwrdd am gleifion yn swyddfa'r nyrsys yn arddangos gwybodaeth gyfrinachol y gellid ei gweld yn rhannol o'r manau cleifion. Cadarnhaodd y staff fod hysbysfwrdd newydd wedi'i archebu er mwyn sicrhau nad yw gwybodaeth am gleifion yn weladwy.

Roedd y ward yn darparu lle digroeso i gleifion y tu allan; roedd paneli dros ben oedd heb eu codi wedi'u gosod ar y llawr mewn un man, a oedd yn golygu bod posib cyffwrdd ag ymylon miniog. Roedd yr holl lawr yn goncrid yn y man hwn, ac roedd wedi'i amgylchynu â ffens ddiogel. Nid oedd unrhyw seddi ac roedd bonion sigarêts yn gwneud y lle'n flêr. Roedd y to rhyhog plastig, a oedd yn darparu rhywfaint o gysgod i'r man, wedi'i orchuddio â mwsogl a malurion. Byddai'r holl fan yn elwa o'i lanhau'n drylwyr.

Roedd Ward Clun yn olau ac awyrog, gyda dodrefn a gosodiadau a oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Ar adeg ein hymweliad, roedd seddi a byrddau newydd yn cyrraedd y ward.

Ward y Fendrod

Mae Ward y Fendrod yn ward derbyniadau ar gyfer cleifion gwrywaidd gydag 20 gwely. Roedd y ward i fyny'r grisiau ym mhrif adeilad yr ysbyty a dim ond yn ddiweddar roedd y grŵp cleifion wedi dechrau ei defnyddio. Roedd y ward newydd ei haddurno, ac roedd cynlluniau i hongian lluniau. Roedd dodrefn a gosodiadau newydd wedi'u harchebu, gan gynnwys cadeiriau newydd ar gyfer y lolfa a phopty ar gyfer y gegin therapi galwedigaethol.

Roedd 16 ystafell wely sengl yn y ward yn ogystal â dwy ystafell a rennir, pob un ohonynt â dau wely. Gwnaethom nodi bod pob panel gweld ar ddrysau'r ystafelloedd gwely ar agor, ond roedd cleifion yn gallu rheoli'r panel y tu mewn i'w hystafelloedd gwely.

Fel gyda Ward Clun, roedd gan yr ystafelloedd gwely ymdeimlad o uned diogelwch isel. Yn ystod ein hymweliad, tra oeddem yn arsylwi ar ystafell wely wag yn cael ei glanhau, gwnaethom nodi bod y dŵr yn ddu a budr, gyda darnau yn arnofio ynddo, ac roedd angen ei newid ar frys. Er inni nodi bod y wardiau'n lân drwyddynt draw, a'r ystadegau ynghylch cyfraddau rheoli heintiau, roedd gweld hyn yn siomedig.

Roedd lolfa gyda theledu ac ystafell fwyta ar wahân ar gael i'r cleifion. Mae angen arwyddion yn y ward fel bod modd adnabod ardaloedd yn rhwydd a dylid nodi drysau tân yn glir. Roedd y rhain wedi cael eu harchebu, ac roedd y staff yn aros iddynt gyrraedd ac iddynt gael eu gosod.

Nid oedd hylif golchi dwylo yn y peiriannau cyflenwi ar y ward hon ac felly roeddent yn gwbl aneffeithiol.

Ward Gwelfor

Ar adeg ein hymweliad, roedd Ward Gwelfor yn uned adsefydlu agored. Fodd bynnag, roedd y drws i'r uned ar glo oherwydd y risgiau a berir gan gleifion – ac i rai cleifion – sy'n byw ar y ward. Nid oedd unrhyw hysbysiadau wedi eu harddangos i gleifion anffurfiol ynghylch sut y gallent adael y ward oherwydd bod y drws dan glo. Dywedwyd wrthym fod y ward ar ganol trawsnewid i fod yn wasanaeth adsefydlu dan glo.

Roedd y ward yn darparu 18 o ystafelloedd gwely a oedd i gyd yn ystafelloedd gwely sengl gyda chyfleusterau en-suite. Roedd y ward ar gyfer y ddau ryw ac roedd wardiau dynodedig ar gyfer cleifion benywaidd a chleifion gwrywaidd. Roedd lolfa ac ystafell golchi dillad ar gyfer menywod yn unig yn y coridor i gleifion benywaidd. Gwnaethom nodi nad oedd modd rheoli'r paneli gweld ar ddrysau'r ystafelloedd gwely o'r tu mewn, a fyddai'n caniatáu rhywfaint o ddewis i gleifion o ran preifatrwydd ac urddas.

Roedd cegin yn y ward lle gallai cleifion wneud diodydd poeth ac oer. Roedd wynebau gweithio newydd wedi'u harchebu ac roedd yr offer cegin angenrheidiol ar gael, gan gynnwys oergell a microdon. Roedd bwrdd a phedair cadair ar gael hefyd.

Roedd digon o gadeiriau wrth y bwrdd bwyta i'r grŵp cleifion fwyta gyda'i gilydd, ac roedd cadeiriau, teledu, a silff lyfrau gyda chryno ddisgiau a DVDau arni ar gael yn y lolfa.

Roedd tair ardal awyr agored yn Ward Gwelfor a oedd yn darparu gerddi a chadeiriau i'r cleifion eu defnyddio. Nid oedd casgen ddŵr mewn un ardal ar

gyfer casglu dŵr glaw, ac roedd hyn wedi arwain at staen gwyrdd ar yr adeilad. Mewn ardal awyr agored arall ar Ward Gwelfor, roedd angen i gleifion gamu allan i'r ardd. Mae angen cynnal adolygiad o hyn oherwydd nid oedd mynediad rhwydd i gleifion allu mynd i'r ardal os oeddent yn defnyddio cymhorthion cerdded neu os oeddent yn simsan ar eu traed.

Yn dilyn ein hymweliad yn 2014, roedd to'r adeilad wedi cael ei ymestyn ar Ward Gwelfor, a oedd yn rhoi rhywfaint o gysgod i'r cleifion hynny oedd am ysmegu.

Ward Celyn

Roedd Ward Celyn yn darparu asesiadau parhaus/estynedig i gleifion benywaidd hŷn. Roedd 20 ystafell wely ar y ward, yn cynnwys 16 ystafell wely en-suite sengl a dwy ystafell ddwbl gyda dau wely ar wahân.

Roedd y ward o siâp hirgrwn gyda gardd ganolog. Roedd yr amgylchedd yn lân, yn olau, ac yn eang, ac roedd y dodrefn a'r gosodiadau o safon dda. Roedd mwy o lolfeydd ar gael i'r cleifion fynd iddynt am amser preifat. Roedd digon o gyfarpar mewn ystafell sensoriaeth i ddad-ddwysáu ac ymlacio.

Y tu allan i ystafell wely pob claf, roedd lle ar gyfer eu 'hanes bywyd', a gwelsom fod hyn yn cynnwys ffotograffau a/neu eitemau personol y claf.

Roedd y mater a nodwyd gennym yn 2014 ynglŷn â'r drws tân wedi derbyn sylw.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o'r cyfleusterau cawod ar Ward Clun er mwyn sicrhau eu bod yn addas i unrhyw un ag anabledd eu defnyddio (oherwydd bod angen dringo'r grisiau i'w cyrraedd).

Mae angen cynnal adolygiad o'r safonau glanhau er mwyn sicrhau bod y safonau'n aros yn uchel ac nad yw'r ystafelloedd a'r ardaloedd eraill i gleifion yn cael eu glanhau â dŵr budr.

Mae angen cael cadarnhad bod yr arwyddion a archebwyd ar gyfer Ward y Fendrod wedi cyrraedd ac wedi'u gosod, er mwyn darparu arwyddion clir i'r staff, cleifion ac ymwelwyr drwy'r ward.

Mae angen arddangos hysbysiadau'n glir ar Ward Gwelfor er mwyn hysbysu cleifion anffurfiol ynghylch sut y gallent adael y ward.

Mae angen cynnal adolygiad o'r ardaloedd awyr agored, yn arbennig ar wardiau Clun a Gwelfor, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i dreulio amser y tu allan.

Mae angen i hylif golchi dwylo fod ar gael ar Ward y Fendrod.

Diogelwch

Dangosodd trafodaethau â chleifion fod y mwyafrif y gwnaethom siarad â nhw'n teimlo'n ddiogel yn Ysbyty Cefn Coed. Ni nododd mwyafrif y staff y gwnaethom siarad â nhw unrhyw broblemau diogelwch, ond fe wnaeth y staff roi sylwadau am gynllun Ward Clun gan ddweud nad oeddent yn gallu clywed larymau'r staff pan oeddent wedi'u hactifadu.

Gwnaethom nodi pryderon ar Ward Clun ynghylch y gweithdrefnau diogelwch rhag tân. Nid oedd yr asesiad risg tân diweddaraf a ddarparwyd ar gyfer y ward wedi'i ddiweddarau. Roedd enw blaenorol y ward (Gwasanaeth Ymyrraeth Cymorth Dwys) wedi'i ysgrifennu ar y clawr a thrwy'r ddogfen. Nid oedd yr asesiad risg wedi'i ddiweddarau ers mis Hydref 2014, er bod adolygiad yn cael ei gynnal bob 12 mis, ac nid oedd yn adlewyrchu'r newid i Ward Clun. Felly, nid oeddem yn gallu bod yn sicr bod yr asesiad risg diogelwch rhag tân yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ar y ward.

Gwnaeth y pryder hwn arwain at anfon llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd, ac maent wedi ymateb iddo ac wedi darparu cynllun tân ac asesiad risg wedi'u diweddarau. Mae mwy o brosesau wedi'u rhoi ar waith hefyd i sicrhau bod unrhyw newidiadau a gwaith uwchraddio a wneir i'r wardiau'n cael eu nodi a bod camau'n cael eu cymryd yn unol â hynny.

Yn ystod ein taith o amgylch amgylchedd yr ysbyty, gwnaethom nodi nifer o broblemau diogelwch. Gwelwyd risgiau clymiadau ar Ward Clun gan nad oedd y wifren o'r teledu i'r soced drydan yn guddiedig. Roedd y torwyr clymiadau yn weladwy i'r cleifion yn y cling ac oherwydd bod rhaid i'r drws gael ei ddal ar agor gan y staff, roedd bygythiad o ran diogelwch. Dylid ystyried cael drws stabil er mwyn caniatáu i staff roi meddyginiaeth mewn modd diogel.

Roedd drysau tân yn cael eu dal ar agor. Pan wnaethom siarad â'r staff ynglŷn â hyn, gwnaethant symud y lletem drws oddi yno ar unwaith. Fodd bynnag, y diwrnod canlynol roedd lletemau drws yn dal y drysau ar agor eto.

Gwnaethom nodi cynnydd yn nifer y staff a dywedodd llawer o gleifion fod hynny wedi gwneud gwahaniaeth. Roedd y staff yn gwisgo larymau personol a dywedwyd wrthym eu bod yn gweithio, a gwelsom fod hynny'n wir.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o'r system larwm ar Ward Clun er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu clywed larymau a gaiff eu hactifadu.

Mae angen diweddarau'r asesiad risg clymiadau a rhoi sylw i'r meysydd a nodir, gan gynnwys y wifren o'r teledu i'r soced drydan a safle'r torwyr clymiadau yn y clinig ar Ward Clun.

Mae angen cynnal adolygiad o'r clinig ar Ward Clun i sicrhau bod y staff yn gallu rhoi meddyginiaethau mewn modd diogel oherwydd bod yr ystafell hon mor anghysbell.

Y tîm amlddisgyblaethol

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol, ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn mynychu adolygiadau achos ar gyfer eu cleifion yn rheolaidd.

Roedd y staff yn cynnal cyfarfodydd trosglwyddo gofal rhwng pob sifft a chynhaliwyd cyfarfodydd staff weithiau.

Preifatrwydd ac urddas

Dyweddodd pob claf y gwnaethom siarad â nhw fod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu yn yr ysbyty. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt eu hystafelloedd gwely eu hunain, a oedd yn cynnwys eu heiddo eu hunain. Gwnaethom nodi yn Ward Gwelfor a Ward y Fendrod bod y paneli gweld yn y drysau i'r ystafelloedd gwely wedi'u gosod ar agor. Nid oedd modd gweithredu'r paneli gweld o'r tu mewn i'w hystafelloedd gwely, ac felly gallai hyn danseilio preifatrwydd ac urddas y claf. Dylid gosod y paneli gweld ar gau fel rhagosodiad, gan alluogi'r staff i'w hagog pan fo angen.

Roedd y cleifion yn gallu enwi eu prif nyrs a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn cael cyfarfod â hi yn breifat pe bai angen. Roedd ymweliadau gan deulu a ffrindiau'n cael eu hannog a'u croesawu, ond ar Ward Clun gwelsom ymweliad yn cael ei gynnal yn nerbynfa/mynedfa'r ward. Nid yw'r sefyllfa hon yn dderbyniol, ac mae angen cynnal adolygiad o hyn er mwyn sicrhau bod cleifion a'u hymwelwyr yn cael preifatrwydd.

Roedd cleifion yn gallu defnyddio ffonau i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd gan rai cleifion eu ffonau symudol eu hunain, ac roedd y lleill yn gallu defnyddio'r ffôn talu ar y ward. Roedd Wi-Fi hefyd ar gael fel ffordd arall o gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Roedd modd gweld gwybodaeth am gleifion, a oedd wedi'i hysgrifennu ar fwrdd gwyn yn swyddfa'r nyrsys ar Ward Clun, o'r ardaloedd i gleifion, a

chawsom ein hysbysu bod hysbysfwrdd newydd wedi'i archebu i sicrhau na fydd y wybodaeth hon yn cael ei pheryglu.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o bob panel gweld ar gyfer drysau'r ystafelloedd gwely i sicrhau bod cleifion yn gallu eu rheoli o'r tu mewn i'w hystafelloedd gwely a'u bod wedi'u gosod ar gau fel rhagosodiad i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Mae angen cynnal adolygiad o'r ystafelloedd i ymwelwyr er mwyn sicrhau bod teulu a ffrindiau'n cael preifatrwydd pan fyddant yn ymweld ac nad oes rhaid iddynt eistedd mewn manau agored megis coridorau.

Mae angen cael cadarnhad bod yr hysbysfwrdd gwybodaeth i gleifion ar Ward Clun wedi cael ei ddisodli ac nad yw gwybodaeth am gleifion yn cael ei pheryglu.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Wrth i ni arsylwi yn ystod ein hymweliad, amlygwyd bod gweithgareddau a therapïau cyfyngedig yn cael eu cynnal, er i ni weld deunydd celf a chrefft a cheginau therapi yn rhai o'r wardiau. Dywedodd hanner y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gwneud cardiau a gemwaith. Gofynnwyd i'r cleifion beth yr oeddent yn hoffi ei wneud, ond nid oedd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis.

Roedd mewnbwn therapi galwedigaethol yn amrywiol yn Ysbyty Cefn Coed drwyddo draw. Yn 2014, gwnaethom nodi nad oedd unrhyw fewnbwn therapi galwedigaethol ar Ward Celyn, ac nid oedd y sefyllfa wedi newid. Roedd gweithgareddau dyddiol wedi'u cyfyngu i ymyriadau staff, ac nid oedd unrhyw weithgareddau wythnosol wedi'u cynllunio i'r staff eu dilyn/darparu.

Ar wardiau eraill, dywedodd rhai o'r staff eu bod yn gweld therapydd galwedigaethol ar eu ward bob dydd, tra bod dim dyddiau penodol ar gyfer rhai eraill. Er bod y therapydd galwedigaethol yn cynnig gweithgareddau i rai grwpiau cleifion, dywedodd y staff nad oedd diddordeb gan y cleifion. Dywedwyd wrthym fod y penwythnosau'n fwy hamddenol ond nid oedd unrhyw fewnbwn therapi galwedigaethol.

Nid oedd unrhyw amserlenni gweithgareddau wedi'u harddangos yn y wardiau, ac nid oedd unrhyw bosteri gwasanaethau eirioli i'w gweld yn y manau i gleifion, er gwaethaf ymweliadau wythnosol gan eiriolwr i'r wardiau.

Roedd y seicolegydd oedd yn darparu gwasanaethau ar gyfer Ward Clun wedi gadael yn ddiweddar, ac nid oedd y staff yn sicr pryd byddai seicolegydd newydd yn cymryd ei le.

Roedd mewnbwn ffisiotherapi ar gael i gleifion ar Ward Celyn ac, er nad oedd ffisiotherapi ar gael ar benwythnosau, roedd y staff yn parhau â'r ymyriadau a oedd wedi'u cynllunio, megis cynlluniau gosod a symud.

Dywedodd y cleifion a'r staff wrthym nad oedd unrhyw broblemau o ran cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys deintydd, meddyg teulu, neu optegydd, pe byddai angen.

Argymhellion

Mae angen cynnal adolygiad o'r mewnbwn therapi galwedigaethol ar Ward Celyn, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gweithgareddau a therapiau sy'n eu cynorthwyo i gael canlyniadau ystyrlon.

Mae angen cynnal adolygiad o'r wybodaeth am eiriolaeth er mwyn sicrhau bod y posteri a'r taflenni yn weladwy yn y manau cleifion i gyd.

Gofal iechyd cyffredinol

Cynhaliwyd adolygiad o'r ystafell driniaeth/meddyginiaeth yn Ward Celyn, a gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Cynhelir archwiliadau dyddiol o'r cyffuriau rheoledig, gan gynnwys Temazepam, gan ddau aelod o staff.
- Nid oedd y cyfarpar dadebru yn hygyrch oherwydd bod trolïau meddyginiaeth a pheiriant ECG yn rhwystro mynediad iddo ar adeg ein hymweliad.
- Roedd yr oergell dal meddyginiaethau'n cael ei archwilio bob dydd a'r tymheredd yn cael ei gofnodi.
- Mae angen gwirio lefel yr ocsigen bob dydd a sicrhau ei bod yn amlwg i'r staff, gan arddangos y dyddiad prawf, faint oedd yno, a llofnod. Gwiriwyd yr ocsigen gan adolygydd AGIC a nyrs staff. Roedd un silindr bron yn wag, sef yr un oedd yn barod i gael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw ddiwyddiad. Fodd bynnag, roedd dau sylindr llawn ac un silindr tri chwarter llawn ar gael. Mae angen cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer y defnydd o ocsigen er mwyn sicrhau pa silindr ocsigen fyddai ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng.
- Roedd adolygiad o'r siartiau NEWS (Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol) yn dangos cydymffurfiaeth achlysurol. Roedd manylion cleifion yn amrywio, gyda rhai siartiau yn cynnwys enw'r claf yn unig.
 - Nid oedd pa mor aml y cymerwyd pwysedd gwaed, curiad y galon, a thymheredd yn amlwg ar bob siart, h.y. bob dydd, bob wythnos ac ati.
 - Nid oedd sgoriau poen yn cael eu nodi, ond rhagnodwyd analgesia ar gyfer y rhan fwyaf o'r cleifion.

- Roedd siart un claf yn nodi bod pwysedd gwaed a churiad y galon i gael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd, ond dyddiad y cofnod diwethaf oedd mis Ebrill 2016.
- Roedd darlleniadau claf yn dynodi bod angen cynyddu'r arsylwadau, ond nid oedd hynny wedi'i wneud ers 7 Mai 2016.

Argymhelliad

Mae angen rhoi sylw i'r meysydd a nodwyd, gan sicrhau yn benodol bod y cyfarpar dadebru yn hygyrch ac nad yw'r mynediad iddo yn cael ei rwystro. Mae angen gwirio'r lefelau ocsigen bob dydd a'u cofnodi, a chynnal adolygiad o'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer pa silindr ocsigen fyddai'n cael ei ddefnyddio yn ystod argyfwng. Mae angen diweddarau'r siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) a'u cwblhau'n llawn i bob claf.

Bwyd a maeth

Roedd adborth gan gleifion a staff yn amrywiol o ran y bwyd oedd yn cael ei weini yn yr ysbyty. Dywedodd un claf wrthym ei fod wedi gwella ers iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty ddiwethaf, ond roedd sylwadau eraill a dderbyniwyd yn datgan bod gormod o garbohydradau'n cael eu gweini, bod y salad yn anatyniadol, ac nad oedd yn werth edrych ar y bwyd paced.

Ni chodwyd unrhyw bryderon neu broblemau o ran cleifion yn cael bwyd deiet arbenigol pe bai angen. Gellid cael diodydd a byrbrydau y tu allan i'r amseroedd prydau bwyd, ac ar rai wardiau roedd mynediad agored i geginau'r ward er mwyn i'r cleifion allu gwneud eu diodydd eu hunain. Roedd wardiau eraill yn gweithredu amserlen lle'r oedd amseroedd penodedig yn ystod y dydd ar gyfer darparu diodydd a byrbrydau. Roedd modd i gleifion hefyd brynu a chadw eu byrbrydau eu hunain, pe byddent yn dymuno.

Gwnaed sylwadau ffafriol gan gleifion a staff ynglŷn â maint dogneau, gan nodi eu bod yn cael mwy na digon o fwyd yn ystod pob pryd bwyd.

Dywedodd pawb y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael dewis eu bwyd eu hunain, ond roeddent yn gwneud y dewis ar adeg gweini'r bwyd. Yn ystod ein hymweliad, ni welsom fwydlenni wedi'u harddangos yn y wardiau ar gyfer darparu gwybodaeth i gleifion ynghylch yr hyn oedd yn cael ei weini yn ystod y diwrnod/amser bwyd hwnnw. Cadarnhaodd y staff eu bod nhw'n archebu'r bwyd ar gyfer eu grwpiau cleifion, a bod y cleifion yn dewis o'r hyn sydd ar gael yn ystod yr amser bwyd hwnnw.

Roedd y bwyd oedd yn cael ei weini yn yr ysbyty yn parhau i gael ei baratoi ymlaen llaw a'i ddosbarthu wedi'i bacio o Ysbyty Singleton, gyda'r staff yn gorffen y broses goginio yn eu ceginau eu hunain ar y wardiau yn Ysbyty Cefn Coed.

Gwnaethom arsylwi ar y gegin ar un ward yn ystod amser cinio. Roedd y bwyd yn cael ei weini i gleifion mewn cynwysyddion plastig, ac o gynwysyddion plastig, ar eu platiau. Gwnaethom nodi bod bron pob un o'r cleifion wedi gofyn beth oedd y dewis o ran bwyd, gan nad oedd unrhyw labeli na bwydlenni i ddarparu'r wybodaeth hon. Roedd y staff yn gymwynasgar o ran rhoi gwybod i'r cleifion beth oedd ym mhob dysgl, ond roedd un ddysgl lle'r oedd y staff yn ansicr ynglŷn â chynnwys y pastai.

Wrth arsylwi yn y gegin, gwelwyd bod yr ymadweithio rhwng y staff a'r cleifion yn gymwynasgar, a oedd yn sicrhau bod pob claf yn cael yr hyn yr oedd ei eisiau a bod y dognau'n ddigonol. Rhoddwyd mwy o fwyd i gleifion oedd yn gofyn am hynny ar ôl i bob claf gael ei weini. Gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion yn eu dewis iaith.

Gan nad oedd y bwyd poeth yn cael ei weini o gownter wedi'i wresogi, ac am nad oedd y staff yn gallu ailgynhesu bwyd, roedd llawer o wastraff. Gwelsom glaf yn cyrraedd yn hwyr am ei ginio. Y dewis oedd ar gael iddo oedd salad, ac yn ffodus i'r claf dyna'r hyn oedd ei eisiau.

Roedd y cleifion yn bwyta yn yr ystafell fwyta, ac unwaith yr oeddent wedi gorffen bwyta, roeddent yn dychwelyd eu platiau a'u cyllyll a ffyrnc i'r agorfa weini. Er bod byrddau a chadeiriau ar gael i'r cleifion eu defnyddio, roedd yn ymddangos bod y profiad bwyta yn anniddorol ac yn rhywbeth a wnaed yn rhan o'r drefn ddyddiol. Gosodwyd amserlen o'r amseroedd bwyd, gan gynnwys amseroedd diod a byrbryd, ar ddrws y gegin.

Ar adeg ein hymweliad, roedd amserau prydau bwyd wedi'u neilltuo ym mhob ward. Er bod hyn yn rhywbeth y mae AGIC yn ei gydnabod, ei gefnogi, a'i barchu, roedd yn anffodus bod rhai o'r staff yn amharod i ganiatáu i un aelod o AGIC arsylwi ar yr amser bwyd. Cydnabyddir bod amser bwyd yn rhan bwysig o ddiwrnod y claf ac o'i adferiad, ac mae'n hanfodol bod staff AGIC ac uwch staff sy'n cynnal archwiliadau ansawdd yn cael arsylwi ar yr ymadweithio er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

Roedd yn braf nodi bod argaeledd y gwasanaethau deietegol wedi gwella yn dilyn ein hymweliad blaenorol, a chadarnhaodd y staff fod y gwasanaeth mewmol yn cael ei ddefnyddio.

Argymhelliad

Mae angen cynnal adolygiad o'r bwyd a weinir i'r cleifion. Yn benodol, sut mae'r bwyd yn cael ei weini i gleifion o gynwysyddion plastig a'i gadw ar y tymheredd cywir, labelu'r dewisiadau bwyd, a'r profiad bwyta.

Hyfforddiant

Cynhaliwyd adolygiad o'r hyfforddiant a ddilynwyd, ac roedd yn braf nodi bod argymhelliad a wnaethom yn 2014, o ran y dylai'r staff dderbyn hyfforddiant codi a chario, wedi cael ei ychwanegu i'r rhestr o hyfforddiant gorfodol. Roedd dwy ward wedi cael cydymffurfiaeth o 100% yn eu hyfforddiant codi a chario, tra bod Ward Clun yn cael cydymffurfiaeth o 88% a Ward Gwelfor yn cael cydymffurfiaeth o 74%.

Dywedodd staff wrthym fod yr anhawster yr oeddent wedi'i gael yn 2014 o ran gallu mynychu hyfforddiant cynnal bywyd wedi derbyn sylw, a'i fod yn cael ei ddarparu ar lefel ward.

Roedd yr ystadegau a ddarparwyd ar gyfer y hyfforddiant gorfodol yn y pedair ward y gwnaethom ymweld â nhw yn amlygu cyfraddau cydymffurfio da, gyda chydymffurfiaeth o 100% mewn meysydd yn cynnwys ymddygiad treisgar ac ymosodol (Ward Clun a Ward Celyn) a hylendid dwylo (Ward Celyn a Ward y Fendrod).

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd y wybodaeth ar gyfer Ward Celyn yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi derbyn arfarniad cyfredol. (Nid oedd y wybodaeth ynglŷn â chyfraddau cydymffurfio ar gyfer Ward Clun, Ward y Fendrod a Ward Gwelfor wedi'i rhestru.)

Nodwyd peth gwelliant o ran goruchwylio staff. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod wedi cael cynnig goruchwyliaeth ond nad oedd wedi'i dogfennu, ond dywedodd un arall eu bod wedi cael sesiwn yr wythnos gynt ac mai honno oedd y sesiwn gyntaf iddynt ei chael ers blynyddoedd. Mae angen gwneud mwy o welliannau er mwyn i'r staff dderbyn goruchwyliaeth reolaidd ac ystyrion sydd wedi'i dogfennu.

Roedd yn braf clywed gan rai o'r staff bod y morâl wedi gwella ers ein hymweliad blaenorol yn 2014.

Argymhelliad

Mae angen gwella goruchwyliaeth staff ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sesiwn reolaidd a'i bod yn cael ei dogfennu.

Llywodraethu

Ers ein hymweliad blaenorol yn 2014, roedd yn galonogol iawn nodi bod nifer o wardiau wedi'u datgomisiynu.

Gwnaethom nodi cynnydd yn nifer y staff a dywedodd llawer o gleifion fod hynny wedi gwneud gwahaniaeth.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom drafod yr amserau prydau bwyd wedi'u neilltuo. Er inni gytuno â'r egwyddorion y mae'r ysbyty'n ei ddilyn o ran hyn, roedd rhai staff yn anfodlon caniatáu i un aelod o'r tîm arolygu arsylwi ar yr amser bwyd. Mae bwyd yn rhan hanfodol o adferiad claf ac o'i brofiad o ddydd i ddydd, ac mae angen arsylwi ar hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael digon o fwyd a gwasanaeth. Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd wrth archwilio/sicrhau ansawdd y bwyd a'r gwasanaeth y mae cleifion yn eu derbyn er mwyn rhoi sicrwydd i'r bwrdd iechyd bod safonau'n cael eu cyrraedd a'u darparu.

Argymhelliad

Mae angen adolygu'r systemau a'r prosesau llywodraethu ac archwilio i ganiatáu arsylwi ar yr amseroedd bwyd er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael bwyd a gwasanaeth o ansawdd da.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth dau glaf ar Ward Celyn, a gwneud yr arsylwadau canlynol:

- Roedd y Siartiau Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan a adolygwyd ar Ward Celyn yn amlygu bylchau sylweddol yn y cofnodion, ynghyd â diffyg archwilio a chymeradwyo gan nyrsys cofrestredig.
- Roedd bylchau hir o rhwng tri a deuddeg diwrnod o ran cofnodi symudiadau'r coluddyn. Roedd y mater hwn yn peri pryder eithriadol oherwydd bod rhai o'r cleifion yn derbyn meddyginiaeth a allai achosi rhwymedd.
- Archwiliwyd dogfennau bwndeli SKIN ac amlygwyd enghraifft lle nad oedd cofnod o ofal am dros 17 awr.
- Nid oedd adolygiad/asesiad o'r rheiliau gwely wedi'i gynnal mor aml ag sy'n angenrheidiol.
- Nid oedd y cleifion oedd â sgôr asesiad Waterlow risg uchel wedi cael eu harchwilio mor aml ag yr oedd yn angenrheidiol.
- Dylid adolygu'r asesiadau risg o ran maeth bob tri diwrnod, ond adolygiadau misol oedd yn cael eu cynnal.

Argymhelliad

Rhaid rhoi sylw i bob un o'r meysydd a nodwyd, gan sicrhau bod dogfennau cleifion i gyd yn cael eu cwblhau'n llawn, eu cwblhau mewn modd amserol, a'u cymeradwyo gan staff perthnasol.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol tri o'r cleifion a gedwir, sy'n derbyn gofal ar un o'r wardiau. Nodwyd y materion canlynol:

- Nid oedd dwy o'r tair ffeil a archwiliwyd yn cynnwys copiâu o'r papurau anfon cleifion i ysbyty meddwl yn y nodiadau achos. Un esboniad a roddwyd dros un o'r ffeiliau a adolygwyd oedd ei bod yn bosibl na chafodd y papurau eu dychwelyd o'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig pan ddaeth y claf yn ôl i'r ward ym mis Mai 2016.
- Roedd y rhesymau dros y dyfarniadau meddygol a ysgrifennwyd ar un ffurflen HO3 bron yn hollol annarllenadwy, ac felly roedd yn anodd pennu a oeddent yn ymdrin â rhannau (a) a (b), oedd yn ymwneud â'r meini prawf ar gyfer cadw claf.
- Nid oedd copiâu o asesiadau gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar gael mewn ffeiliau. Fodd bynnag, rhoddodd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl sicrwydd y byddent wedi cael eu sganio i'r wardiau gyda'r papurau anfon cleifion i ysbyty meddwl.
- Nid welwyd copiâu o benderfyniadau'r rheolwyr yn dilyn adolygiad yn y ffeiliau a archwiliwyd. Rhoddodd Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl sicrwydd unwaith eto fod penderfyniadau'r rheolwyr yn dilyn adolygiad yn cael eu sganio i'r wardiau.
- Nid oedd copiâu o bapurau anfon cleifion i ysbyty meddwl, gan gynnwys dogfennau adnewyddu a dogfennau statudol perthnasol eraill, yn cael eu symud o'r hen ffeiliau i ffolderi nodiadau achos newydd pan oeddent yn cael eu hagar.
- Roedd cleifion dan gadwad yn cael eu symud o wardiau i ysbyty cyffredinol yn ystod argyfwng i dderbyn triniaeth ar gyfer anhwylder corfforol neu anaf a hynny heb unrhyw awdurdod cyfreithiol.
- Nid oedd bron ddim gwybodaeth am eiriolaeth wedi'i harddangos yn y wardiau y gwnaethom ymweld â nhw.
- Roedd y Cod Ymarfer ar gael yn y wardiau yn ogystal â Rhannau 2 a 3 o'r Mesur Iechyd Meddwl.

Yn dilyn ein hymweliad blaenorol ym mis Tachwedd 2014, gwnaethom gynnal adolygiad o'r cynnydd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu. Roedd un cam gweithredu'n nodi "y bydd archwiliad 'ar y ward' o ffeiliau'r cleifion yn cael ei atgyfnerthu er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl ei chofnodi'n briodol. Bydd clercod wardiau yn adolygu'r ffeiliau'n fisol." Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynnal archwiliadau misol hyd yn hyn. Ni fu unrhyw ddarpariaeth ddiweddar o hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl i glercod wardiau ar Ward Clun a Ward y Fendrod, ac felly nid oedd ganddynt unrhyw wybodaeth na dealltwriaeth er mwyn galluogi iddynt gefnogi staff wardiau mewn agweddau'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd yr ail gam gweithredu a bennwyd yn 2014 yn nodi: "Yng nghofnodion ward y cleifion, dylid nodi'n glir bod hen bapurau absenoldeb Adran 17 wedi cael eu canslo." Yn y ffeiliau a archwiliwyd, nid oedd "wedi canslo" wedi cael ei ysgrifennu'n glir ar ffurflenni absenoldeb Adran 17 a oedd wedi cael eu diddymu neu eu newid.

Argymhellion

Rhaid i gopïau o bapurau anfon cleifion i ysbyty meddwl fod gyda'r nodiadau achos.

Rhaid i gyfarwyddiadau ysgrifenedig fod yn glir a darllenadwy i'r staff allu cyflawni'r camau gweithredu priodol.

Rhaid symud y papurau anfon cleifion i ysbyty meddwl, gan gynnwys y dogfennau adnewyddu a dogfennau statudol eraill, i ffolderi nodiadau achos newydd pan gânt eu hagor.

Rhaid i gleifion fod â'r awdurdod cyfreithiol cywir pe byddent yn cael eu symud i ysbyty cyffredinol i gael triniaeth.

Mae angen adolygu'r argymhellion a wnaed yn 2014, yn benodol i roi sylw i'r diffyg archwiliadau misol a'r nodiadau ar ffurflenni diddymu a chanslo Adran 17.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Ysbyty Cefn Coed yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Bydd cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y cytunwyd arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Ysbyty: Ysbyty Cefn Coed

Dyddiad yr Arolygiad: 10-11 Mai 2016

Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Tystiolaeth Ychwanegol	Amserlen
Mae angen adolygu'r cyfleusterau cawod ar Ward Clun i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer unrhyw un sydd ag anabledd i'w defnyddio (oherwydd y grisiau sydd eu hangen i gael mynediad iddynt).	Cyn iddynt gael eu derbyn, caiff cleifion eu hasesu, a phe bai angen cymorth symudedd, bydd yr unigolion hyn yn cael eu trosglwyddo i Ward 14 yn Ysbyty Tywysoges Cymru, sef y ward cleifion mewnol penodedig sy'n darparu ar gyfer pobl sydd â llai o symudedd. Fodd bynnag, yn dilyn adolygiad o'r ardal gyda chydweithwyr yn y maes cyfalaf, bydd offer esgyn yn cael eu darparu, sy'n rhoi gwell symudedd i gleientiaid anabl yn yr ardal.	Rheolwr Ward Clun	<ul style="list-style-type: none">➤ Y Ward symudedd a bennwyd yw Ward 14.➤ Bydd ramp trothwy yn cael ei ddarparu fel datrysiaid ar gyfer gwaredu'r rhwystr fertigol yn y cyfleusterau cawod.	Cwblhawyd 31 Gorffennaf 2016

<p>Mae angen adolygiad o safonau glanhau i sicrhau eu bod yn aros yn uchel ac nad yw mannau cleifion eraill yn cael eu glanhau gan ddŵr budr.</p>	<p>Mae'r bwrdd iechyd yn dilyn Credydau ar gyfer Glanhau (C4C), Dull Monitro Glendid dros Gymru gyfan, o fewn ei holl ardaloedd gweithredol.</p> <p>Cynhyrchir adroddiad ansawdd 13 wythnos i bob ward yn manylu'r gwaith sydd ei angen yn dilyn archwiliad.</p> <p>O ran y broblem lanhau benodol a gydnabu gan y tîm ymweld, hysbyswyd Goruchwyliwr Gwasanaethau Gwesty Ysbyty Cefn Coed a thrafodwyd y mater gyda thîm domestig y ward.</p>	<p>Goruchwyliwr Gwasanaethau Gwesty</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Dull monitro Credydau ar gyfer Glanhau (C4C) ar waith. ➤ Mae safonau glanhau'r ward wedi eu hadolygu gan Is-bwyllgor Gweithredol yr Ysbyty. ➤ Mae'r angen i gynnal safonau glanhau uchel wedi ei atgyfnerthu gyda thîm domestig y ward drwy'r goruchwylwyr. 	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen arddangos hysbysiadau'n glir ar Ward Gwelfor yn hysbysu cleifion anffurfiol ynglŷn â sut y gallant adael y ward.</p>	<p>Mae Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol wedi gwneud trefniadau i arddangos hysbysiadau bellach.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Dangosir hysbysiadau nawr. 	<p>Cwblhawyd</p>

<p>Mae angen adolygu ardaloedd awyr agored, yn enwedig ar wardiau Clun a Gwelfor, i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer treulio amser tu allan.</p>	<p>O ran Uned Gwelfor, mae cais Llywodraeth Cymru 'Tyfu'n Lleol', a gyflwynwyd gan y Cyngor Cleifion, wedi ei wobrwyo. Fel canlyniad, mae nifer o welyau sydd wedi eu codi wedi eu creu ger yr uned i annog cleifion i dyfu eu llyisiau eu hunain. Yn ogystal, mae gwelyau blodau wedi eu gosod tu ôl yr uned a thu ôl y tai sydd â gofal llai dwys. Mae dodrefn ar gyfer yr ardd a barbeciwr wedi cael eu darparu hefyd trwy gyllid elusennol, fel bod cleifion yn gallu gwneud gwell defnydd o'r lle tu allan. O ran Ward Clun, mae'r Cyngor Cleifion wedi gofyn i Gydlynnydd Celfyddydau mewn lechyd y bwrdd iechyd am gymorth wrth ddylunio cowt y ward. Bydd hyn yn cynnwys gosod pren haenog morol dros y ffens bresennol er mwyn i ddyluniad a ysbrydolwyd gan gleifion gael ei baentio. Yn ogystal, mae cyllid elusennol wedi ei ddarparu i greu gwelyau blodau sydd wedi eu codi yn barod ar gyfer plannu yn yr hydref. Ar ben hynny, mae'r Cyngor Cleifion, ynghyd â Chanolfan Ddydd Cwmbwrla, yn adeiladu meinciau gardd pren caled i'w gosod yn y cowt.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cais 'Tyfu'n Lleol' wedi ei wobrwyo. ➤ Crëwyd gwelyau blodau sydd wedi eu codi. ➤ Darperir dodrefn ar gyfer yr ardd. ➤ Cyfraniad Cydlynnydd Celfyddydau mewn lechyd y bwrdd iechyd. ➤ Mae meinciau newydd yn cael eu gwneud a'u dylunio gan gleifion. ➤ Mae'r gwely blodau sydd wedi'i godi ar Ward Clun wedi cael ei chwynnu a'i ail-leoli. ➤ Mae Grŵp Gwella Clinig Tawe'n gweithio i wella'r amgylchedd awyr agored ar gyfer wardiau Fendrod a Chlun. ➤ Ymgysylltu â'r gymuned 	<p>Cwblhawyd</p>
--	---	---------------------------	--	------------------

			leol a'r Cyngor Cleifion.	
Mae angen i gel dwylo fod ar gael i Ward Fendrod.	Mae'r angen i sicrhau bod gel dwylo ar gael wrth y ffynhonnell wedi ei gyfleu i Reolwr y Ward.	Rheolwr Ward Fendrod	➤ Mae peiriannau cyflenwi gel dwylo wedi eu hail-lenwi.	Cwblhawyd
Mae angen cadarnhad bod yr arwyddion a archebwyd ar gyfer Ward Fendrod wedi eu derbyn a'u gosod er mwyn darparu staff, cleifion ac ymwelwyr ag arwyddion eglur ar draws y ward.	Mae adolygiad o arwyddion ysbyty wedi cael ei gynnal ar y cyd â'r contractwr arwyddion.	Rheolwr yr Ysbyty	➤ Mae system canfod y ffordd gywir bellach ar waith sy'n dangos Ward Fendrod a Ward Clun yn glir (Clinig Tawe).	Cwblhawyd
Mae angen adolygiad o'r system larwm ar Ward Clun er mwyn sicrhau bod staff yn gallu clywed larymau sy'n cael eu hysgogi.	Mae Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol wedi hysbysu bod prawf wedi ei gyflawni ar y system larwm affræe a'i bod yn gweithio'n iawn.	Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Larwm affræe wedi cael ei brofi. ➤ Profion wythnosol rheolaidd ar waith. ➤ Darperir larymau personol ar gyfer pob aelod o staff y ward. 	Cwblhawyd

<p>Mae angen cynnal asesiad risg rhwymynnau diweddaedig a rhoi sylw i ardaloedd a nodir, gan gynnwys y wifren o'r teledu i'r soced trydanol a safle'r torwyr rhwymynnau yn y clinig ar Ward Clun.</p>	<p>Mae asesiad risg gwrth-glymu wedi ei wneud. Aseswyd ceblau teledu fel blaenoriaeth isel oherwydd eu lleoliad, lefel y gweithgaredd, a lefel yr oruchwyliaeth. Fodd bynnag, mae cydweithwyr ystadau wedi cael eu cysylltu â nhw er mwyn sicrhau bod unrhyw wifrau sy'n llusgo'n cael eu cuddio'n briodol.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Asesiad rhwymynnau wedi'i gwblhau a'i atodi. ➤ Torwyr rhwymynnau wedi eu symud. ➤ Bydd gweithwyr ystadau'n rhoi sylw i'r gwifrau sy'n llusgo. 	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen adolygu'r clinig ar Ward Clun er mwyn sicrhau bod staff yn gallu rhoi meddyginiaeth yn ddiogel.</p>	<p>Bydd ardal glinigol newydd yn cael ei darparu fel rhan o ail gyfnod rhaglen ddigomisiynu'r ysbyty.</p>	<p>Rheolwr yr Ysbyty</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae ardal fwy, sy'n fwy gweladwy, wedi cael ei nodi ar y ward (ardal y golchdy presennol). 	<p>31 Awst 2016</p>
<p>Mae angen adolygu'r holl baneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely i sicrhau bod cleifion yn gallu eu rheoli o du fewn eu hystafell wely a'u bod wedi eu gosod</p>	<p>Mae adolygiad o'r paneli arsylwi yn nrysau ystafelloedd gwely wedi cael ei gynnal ar wardiau Fendrod, Clun a Gwelfor. Yn Ward Clun, gellir</p>	<p>Rheolwr Gwasanaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gellir gweithredu'r holl baneli arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely ar Ward Clun ar y naill ochr 	<p>Cwblhawyd</p>

<p>ar gau i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion.</p>	<p>gweithredu holl baneli drws yr ystafelloedd gwely ar y naill ochr a'r llall o'r drws. O ran Ward Fendrod, mae chwe ystafell wely sydd â phaneli arsylwi Vistamatic y gellir eu gweithredu ar y naill ochr a'r llall o'r drws (ystafelloedd rhif 12 a 14 i 18). Mae'r 14 panel arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely sy'n weddill yn cael eu gweithredu o du allan y drws yn unig.</p> <p>Ar Ward Gwelfor, mae 18 panel arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely y gellir eu gweithredu o du allan i'r drws yn unig. Mae rheolwyr y Gwasanaethau Clinigol wedi cynghori bod y paneli'n cael eu defnyddio gan staff y ward i oruchwylio cleifion yn ochelgar heb agor y drws ac maent felly'n diogelu urddas a sicrhau nad yw'r claf yn cael ei darfu'n ddiangen. Yn ogystal, y gosodiad arferol ar gyfer llen y panel arsylwi fydd ar gau.</p>		<p>a'r llall o'r drws.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Ar Ward Fendrod, mae chwe phanel ystafell wely sy'n cael eu gweithredu ar y naill ochr a'r llall o'r drws – mae staff y ward wedi cael eu cyfarwyddo i sicrhau bod y gosodiad arferol ar gau. ➤ Ar Ward Gwelfor, mae'r staff wedi cael eu cyfarwyddo i sicrhau bod y gosodiad arferol ar gau. 	<p>Cwblhawyd</p>
--	---	--	---	------------------

<p>Mae adolygiad o ystafelloedd ymwelwyr yn ofynnol i sicrhau bod gan deuluoedd a ffrindiau breifatrwydd wrth ymweld ac nad oes rhaid iddynt eistedd mewn ardaloedd agored megis coridorau.</p>	<p>Ers yr arolygiad, mae ystafell i deuluoedd sy'n ymweld wedi cael ei darparu ar lawr cyntaf Clinig Tawe at ddefnydd wardiau Clun a Fendrod. Yn ogystal ac yn unol ag ail gyfnod y broses ddigomisiynu, mae yna gynlluniau i greu siop a ffreutur gyda lle i eistedd tu fewn a thu allan ar gyfer cleifion ac ymwelwyr.</p>	<p>Rheolwr yr Ysbyty</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Darperir ystafell i deuluoedd sy'n ymweld erbyn hyn. 	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Gofynnir am sicrhau bod y bwrdd gwybodaeth i gleifion ar Ward Clun wedi cael ei ddisodli ac nad yw gwybodaeth am gleifion yn cael ei pheryglu.</p>	<p>Mae bwrdd gwybodaeth newydd wedi ei sicrhau ar gyfer y ward.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae bwrdd gwybodaeth newydd wedi ei archebu (Grŵp Asesu Cynllun Mynediad Cleifion) a phan fydd yn cael ei dderbyn, bydd yn cael ei leoli i sicrhau nad yw cyfrinachedd cleifion yn cael ei beryglu. 	<p>31 Gorffennaf 2016</p>
<p>Mae angen adolygiad o'r mewnbwn therapi galwedigaethol, yn benodol ar Ward Celyn, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gweithgareddau a therapiau sy'n eu helpu i gael canlyniadau ystyrlon.</p>	<p>Mae Gweithiwr Gweithgaredd Therapi Galwedigaethol bellach wedi'i benodi drwy gyllid Llywodraeth Cymru. Mae Gwasanaethau i Bobl Hŷn wedi creu grŵp prosiect sydd wedi ei anelu at wella diwrnod</p>	<p>Therapydd Galwedigaethol Arweiniol</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Penodwyd y Gweithiwr Gweithgaredd Therapi Galwedigaethol. ➤ Datblygwyd tîm prosiect i sicrhau bod mewnbwn 	<p>Cwblhawyd</p>

	ystyrlon i gleifion ac ymgorffori hyn yn y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth a chefnogi staff i wneud hynny.		therapi galwedigaethol yn cael ei ddarparu ar draws pob agwedd o'r gwasanaeth.	
Mae adolygiad o wybodaeth eiriolaeth yn ofynnol i sicrhau bod posterï a thafleuni gwybodaeth yn weladwy yn yr holl adrannau i gleifion.	Mae Mark Doyle wedi darparu posterï a thafleuni gwybodaeth i Wasanaeth Eiriolaeth De Cymru ac mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu i holl wardiau ac adrannau'r ysbyty.	Rheolwr yr Ysbyty	➤ Darperir posterï a thafleuni.	Cwblhawyd
Mae angen edrych ar y meysydd a nodwyd, yn benodol i sicrhau bod yr offer dadebru'n hygyrch ac nid yw mynediad yn cael ei atal. Mae angen profi a chofnodi lefelau ocsigen yn ddyddiol a gwneud adolygiad o'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer achosion o argyfwng lle y byddai silindr ocsigen yn cael ei ddefnyddio. Mae'n rhaid diweddarau a chwblhau siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) yn llawn ar gyfer pob claf.	Mae Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn wedi hysbysu bod adolygiad o'r ystafell driniaeth wedi ei wneud gan staff y ward i sicrhau bod offer dadebru'n hawdd eu cyrraedd. Yn nhermau profion lefel ocsigen dyddiol, bydd hyn bellach yn cael ei fonitro drwy'r rhestr wirio ddyddiol o offer dadebru. O ran diweddarau siartiau Sgoriau	Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae cyfarpar dadebru bellach ar gael. ➤ Caiff lefelau ocsigen eu monitro drwy restr wirio dadebru'n ddyddiol. ➤ Siartiau NEWS misol o ansawdd wedi'u cyflawni'n llawn. ➤ Adolygiadau sicrhau ansawdd misol yn eu lle. 	Cwblhawyd

	Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS), bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod y rhain wedi'u cwblhau'n llawn a bydd hyn yn cael ei fonitro drwy adolygiadau sicrhau ansawdd, fel y cyfarwyddwyd gan Gyfarwyddwr Nyrsys yr Uned.			
Mae angen cynnal adolygiad o'r bwyd a ddarperir i'r cleifion. Yn benodol, sut mae bwyd yn cael ei weini i gleifion o gynhwysyddion plastig a'i gadw at y tymheredd cywir, labelu'r dewisiadau bwyd, a'r profiad o fwyta.	<p>Mae Fframwaith Bwydlen Cymru Gyfan ar waith yn Ysbyty Cefn Coed. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys 18 cawl, 38 eitem prif gwrs, a 42 pwdin, byrbryd a chyfywd. Mae bwydlenni'n cael eu hanfon i'r ward yn wythnosol a chaiff cleifion eu hannog i gyfrannu at ddewis bwyd.</p> <p>Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Gwesty fod bwyd twym yn cael ei weini i'r ward ar droli arlwyo wedi'i gynhesu, sydd â wynebau wedi eu cynhesu, ac mae gwres gweddilliol fel bod bwyd sydd ar gylchred adfywio yn gallu cael ei gadw ar y tymheredd cywir. Yn nhermau labelu bwyd, mae disgrifiad yr eitem fwyd wedi ei leoli ar glawr bob cynhwysydd bwyd, ac yna'n cael ei daflu unwaith y caiff ei agor. Mae cydweithwyr o'r Adran</p>	Rheolwr Gwasanaethau Gwesty	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Rheolwr Gwasanaethau Gwesty ➤ Cedwir bwyd ar y tymheredd cywir drwy gownteri twym. ➤ Caiff bwydlenni eu darparu ar ochr troliâu bwyd. ➤ Gellir darparu prydau poeth y tu allan i oriau. 	Cwblhawyd

	Gwasanaethau Gwesty wedi cynghori, fodd bynnag, y bydd bwydlen yn cael ei harddangos bellach ar ochr y troli bwyd. Yn ogystal, gellir darparu pryd cynnes y tu allan i oriau pe bai angen hynny ar y cleifion. Prydau wedi eu rhewi byddai'r rhain y gellir eu hailgynhesu yn ôl yr angen.			
Mae angen gwella goruchwyliaeth staff ar gyfer pob aelod o staff er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn sesiwn reolaidd sydd wedi ei dogfennu.	Cydnabyddir bod angen rhoi hwb i oruchwyliaeth glinigol reolaidd, a gofnodir, ar gyfer y staff. Hysbysodd Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol fod goruchwyliaeth gan y rheolwyr yn cael ei darparu a'i chofnodi, ond bod goruchwyliaeth glinigol yn digwydd yn fwy anffurfiol.	Rheolwr Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Polisi Llywodraethu a Goruchwyliaeth ➤ Mae cronfa ddata o oruchwylwyr ar gael. 	I'w adolygu drwy Grwpiau Gwasanaeth Awst 2016.
Mae angen cynnal adolygiad o'r systemau a phrosesau llywodraethu ac archwilio er mwyn sicrhau bod amseroedd bwyd yn cael eu goruchwyllo i sicrhau bod cleifion yn derbyn safon dda o fwyd a gwasanaeth.	Fel yr arsylwyd gan y tîm ymweld, mae polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu wedi cael ei fabwysiadu gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, ar sail achos wrth achos, er mwyn diwallu anghenion sy'n benodol i'r unigolyn, mae angen i staff y ward fod yn hyblyg – er enghraifft, mewn achos lle bod aelod o'r teulu yn darparu cymorth i fwyta ac yfed.	Rheolwr Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hysbyswyd staff y ward am yr angen i hwyluso arolygiad llawn pe bai aelod o AGIC yn dymuno goruchwyllo amseroedd bwyd fel rhan o'i adolygiad arolygu. 	Cwblhawyd
Rhaid mynd i'r afael â phob un o'r meysydd a nodwyd, gan gynnwys	Mae'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am Ward Celyn wedi unioni	Rheolwr Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cytunwyd gan Fwrdd Nyrso a Bydwreigiaeth y 	Cwblhawyd

<p>sicrhau bod holl gofnodion y cleifion wedi eu cwblhau yn amserol ac wedi eu llofnodi gan aelod o staff perthnasol.</p>	<p>cadw cofnodion diffygiol ac wedi rhoi cynllun ar waith i sicrhau gwelliant hirdymor a chynaliadwy.</p>		<p>bwrdd iechyd y byddai'r holl nyrsys a'r bydwragedd cofrestredig yn anelu at nod o gadw cofnodion sydd wedi'i osod yn unol â'r broses ddatblygu bersonol.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Bydd gwiriadau dogfennau yn ffurfio rhan o'r rhaglen archwilio ar hap ar gyfer cyfarwyddwyr nyrsys yr uned. ➤ Atodwyd rhestr wirio ar gyfer yr archwiliad, a fydd yn adolygu'r ddogfennaeth ar gyfer yr holl gleifion ar draws Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn. 	
<p>Mae'n rhaid i gopïau o bapurau secsiynu fod gyda'r nodiadau achos.</p>	<p>Mae Rhestr Wirio Dogfennau Iechyd Meddwl fewnol wedi cael ei datblygu ar gyfer yr holl fannau cleifion mewnol ar gyfer y cleifion hynny sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Datblygwyd ac atodwyd rhestr wirio. ➤ Mae archwiliadau sydd wedi eu cynnal ar holl wardiau Gwasanaethau i Oedolion a Phobl Hŷn Ysbyty Cefn Coed yn cael eu cyflwyno i bob ardal arall. 	

<p>Rhaid i gyfarwyddiadau ysgrifenedig fod yn glir ac yn ddarllenadwy ar gyfer staff er mwyn i weithredu'n briodol.</p>	<p>Atgoffwyd cydweithwyr meddygol i sicrhau bod barn feddygol sydd wedi'i hysgrifennu ar ddogfennau lechyd meddwl yn ddarllenadwy.</p>	<p>Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Wedi ei fonitro trwy'r Rhestr Wirio Dogfennau lechyd Meddwl ac archwiliadau sicrhau ansawdd. ➤ I'w adolygu drwy gyfarfodydd ward wythnosol y Tim Amlddisgyblaethol. 	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i bapurau secsiynu, gan gynnwys dogfennau adnewyddu a dogfennau statudol eraill, gael eu symud i ffolderi nodiadau achos newydd pan fyddant yn cael eu hagar.</p>	<p>Mae copïau o bapurau secsiynu, gan gynnwys dogfennau adnewyddu a dogfennau statudol eraill, bellach yn cael eu trosglwyddo o hen ffeiliau i ffolderi nodiadau achos newydd yn ôl yr angen.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Rhestr Wirio Dogfennau lechyd Meddwl ➤ Bydd rheolwr y ward yn archwilio fel rhan o'r rhestr wirio. Clerc y ward fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddogfennaeth gywir yn ei lle. 	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae'n rhaid i gleifion gael yr awdurdod cyfreithiol cywir pan fyddant yn cael eu symud i ysbyty cyffredinol i gael triniaeth.</p>	<p>Mae'r mater hwn wedi cael ei ailadrodd i staff y ward drwy Adran y Ddeddf lechyd Meddwl ac mae hyfforddiant pellach wedi cael ei gynnal.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Bydd Rhestr Wirio Dogfennau lechyd Meddwl yn cael ei hadolygu gan Reolwr y Ward a Chlerc y Ward. 	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen adolygiad o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad 2014, yn benodol</p>	<p>Datblygwyd Offeryn Archwilio Dogfennaeth y Ddeddf lechyd</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Archwiliadau misol o ddogfennaeth ar waith. ➤ Mae ffurflenni 	<p>Cwblhawyd</p>

<p>er mwyn rhoi sylw i'r diffyg o ran cynnal archwiliadau misol a'r anodiad ar ffurflenni Adran 17 sydd wedi eu canslo neu dynnu'n ôl.</p>	<p>Meddwl. Mae archwiliadau misol bellach ar waith, ac mae'r rhain yn cael eu cynnal gan Reolwr y Ward a Chlerc y Ward. Cedwir copïau o archwiliadau ar ffeil y claf. Bydd Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei chysylltu pe bai unrhyw ddogfennaeth ar goll. Gall hyn gael ei sganio'n syth i'r wardiau. Bydd stamp 'wedi canslo' a wnaethpwyd ar archeb yn cael ei ddarparu i'r wardiau i sicrhau bod ffurflenni Adran 17 sydd wedi eu canslo neu eu tynnu'n ôl wedi eu hanodi'n glir.</p>		<p>darfodedig yn cael eu ffeilio yng nghofnod iechyd y claf ac mae'r rhain yn cael eu marcio fel 'wedi canslo' pan fo ffurflenni newydd yn cael eu creu.</p> <p>➤ Bydd stamp 'wedi canslo' a wnaethpwyd ar archeb yn cael ei ddarparu ar gyfer anodi ar ffurflenni Adran 17 sydd wedi eu canslo neu eu tynnu'n ôl.</p>	
--	---	--	--	--